Skills for Learning Professionals

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

The Sector Skills Council for Lifelong Learning

Consultation launched to strengthen England's high level skills base

A High Level Skills consultation that will seek views from employers, students, colleges and universities on how to build stronger and flexible links between business and universities was launched today (14 April). Minister of State for Higher Education Bill Rammell said, 'Our higher education system is already world class but we can do even more to equip graduates and those already in work with the higher level skills demanded by employers.' Read more (DIUS)

New Commission puts employer voice at heart of skills policy

Ministers from all four national governments welcomed the launch of the UK Commission for Employment and Skills (UKCES) on 1 April. Working with employers to create a better skilled workforce, the commission will take over from the Sector Skills Development Agency and the National Employment Panel, both of which closed on 31 March. As a single employer-led board, it will provide direct advice to Ministers at the highest levels across the UK. Read more (DIUS)

Northern Ireland Minister speaks of developing a competitive higher education sector

Employment and learning Minister, Sir Reg Empey, has reaffirmed his commitment to developing an internationally competitive higher education sector in Northern Ireland. Speaking at the NUS-USI 'Great Higher Education Funding Debate' in Belfast he said, 'It is vital that we work together to provide a higher education sector, accessible to all who are able to benefit, and meeting the needs of the Northern Ireland economy and wider society.' Read more (DELNI)

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Lansio ymgynghoriad i gryfhau sylfaen sgiliau lefel uchel Lloegr

Heddiw (14 Ebrill) cafodd ymgynghoriad Sgiliau Lefel Uchel ei lansio a fydd yn gofyn am sylwadau oddi wrth gyflogwyr, myfyrwyr, colegau a phrifysgolion ar sut i feithrin cysylltiadau cryfach a hyblyg rhwng busnes a phrifysgolion. Dwedodd y Gweinidog Gwladol dros Addysg Uwch Bill Rammell, 'Mae gennym system addysg uwch o'r radd flaenaf eisoes ond gallwn ni wneud mwy byth i roi i raddedigion a'r rheiny sy'n gweithio'n barod y sgiliau lefel uchel mae cyflogwyr yn eu mynnu.' Darllenwch ragor (DIUS)

Comisiwn newydd yn rhoi llais cyflogwyr wrth galon polisi sgiliau

Croesawodd Gweinidogion o bob un o'r pedair llywodraeth genedlaethol lansiad Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) ar 1 Ebrill. Gan weithio gyda chyflogwyr i greu gweithlu â sgiliau gwell, bydd y comisiwn yn cymryd drosodd o'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector a'r Panel Cyflogaeth Cenedlaethol, y daeth y ddau ohonynt i ben ar 31 Mawrth. Fel un bwrdd a arweinir gan gyflogwyr, bydd yn rhoi cyngor uniongyrchol i'r Gweinidogion ar y lefelau uchaf ar draws y DU. Darllenwch ragor (DIUS)

Gweinidog Gogledd Iwerddon yn sôn am ddatblygu sector addysg uwch cystadleuol

Mae'r Gweinidog dros Gyflogaeth a Dysgu, Syr Reg Empey, wedi ail-gadarnhau ei ymrwymiad i ddatblygu sector addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon sy'n gystadleuol yn rhyngwladol. Gan siarad yn 'Great Higher Education Funding Debate' NUS-USI ym Melffast dywedodd, 'Mae'n hanfodol ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd i ddarparu sector addysg uwch sy'n hygyrch i bawb a all fanteisio arno, a bodloni anghenion economi Gogledd Iwerddon a'i chymdeithas ehangach.' Darllenwch ragor (DELNI)

Skills research for Northern Ireland published

The Department for Employment and Learning, has published findings from two research reports that have examined issues in Northern Ireland. Entitled 'An Assessment of International Trends in Occupational Forecasting and Skills Research: How does Northern Ireland compare?' and 'Towards a Skills Assessment Framework for Northern Ireland: A Sectoral Performance Approach', these reports will help inform the Northern Ireland Skills Expert Group (NISEG) as it assesses current and future skill needs in the region. Read more (DELNI)

Expansion of Modern Apprenticeships in Scotland

Changes that will include the introduction of a modern apprenticeship in Life Sciences and increased opportunities for adults and 16-19 year olds in construction and engineering have been announced by Education and Lifelong Learning Secretary Fiona Hyslop and the newly appointed Chair of Skills Development Scotland, Willy Roe. They come as part of a series of changes that Skills Development Scotland will implement, in addition to supporting those currently engaged in training programmes. Read more (Scottish Government)

Wales skills strategy due in Summer 2008

Consultations on the draft strategy Skills that Work for Wales has now ended with a Final Action plan now set to be produced by the Summer. Deputy Minister for Skills in the Welsh Assembly Government, John Griffiths has spoken of the positive responses received during consultations and his hope for the strategy to become a 'blueprint' for a joined-up system that will allow employers to determine the type of skills that will be developed in Wales. Read more (icWales)

£2 billion strategy to develop low carbon colleges in England

John Denham, Secretary of State for Innovation and Skills, has announced proposals for the largest ever further education building works programme which will see £2.3 billion invested over the next three years. Over 150 colleges in England are set to benefit from the strategy that will ensure all new facilities

Cyhoeddi ymchwil sgiliau ar gyfer Gogledd Iwerddon

Mae'r Adran Cyflogaeth a Dysgu wedi cyhoeddi canfyddiadau dau adroddiad ymchwil sydd wedi edrych ar faterion yng Ngogledd Iwerddon. Dan y teitlau 'An Assessment of International Trends in Occupational Forecasting and Skills Research: How does Northern Ireland compare?' and 'Towards a Skills Assessment Framework for Northern Ireland: A Sectoral Performance Approach', bydd yr adroddiadau hyn o gymorth i lywio Grŵp Arbenigol Sgiliau Gogledd Iwerddon (NISEG) wrth iddo asesu anghenion sgiliau presennol a rhai'r dyfodol yn y rhanbarth. Darllenwch ragor (DELNI)

Ehangu Prentisiaethau Modern yn yr Alban

Mae newidiadau a fydd yn cynnwys cyflwyno prentisiaeth fodern mewn Gwyddorau Bywyd a mwy o gyfleoedd i oedolion a phobl 16-19 oed ym maes adeiladu a pheiriannu wedi cael eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Fiona Hyslop a Chadeirydd Skills Development Scotland sydd newydd ei benodi, Willy Roe. Maen nhw'n rhan o gyfres o newidiadau y bydd Skills Development Scotland yn eu rhoi ar waith, yn ogystal â chefnogi'r sawl sydd eisoes yn dilyn rhaglenni hyfforddiant. Darllenwch ragor (Llywodraeth yr Alban)

Strategaeth sgiliau Cymru i ddod Haf 2008

Mae'r ymgynghori ar y strategaeth ddrafft Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru wedi dod i ben bellach gyda Chynllun Gweithredu Terfynol i'w gynhyrchu erbyn yr Haf. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, John Griffiths, wedi sôn am yr ymatebion cadarnhaol a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad a'i obaith y bydd y strategaeth yn dod yn 'lasbrint' ar gyfer system gydlynus a fydd yn caniatáu i gyflogwyr bennu'r math o sgiliau a fydd yn cael eu datblygu yng Nghymru. Darllenwch ragor (icWales)

Strategaeth £2 biliwn i ddatblygu colegau carbon isel yn Lloegr

Mae John Denham, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Arloesi a Sgiliau, wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer y rhaglen fwyaf erioed o adeiladu addysg bellach a fydd yn gweld £2.3 biliwn yn cael ei fuddsoddi yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd mwy na 150 o golegau yn Lloegr yn elwa ar y strategaeth a fydd yn sicrhau bod pob

are zero carbon by 2016. Read more (DIUS)

cyfleuster newydd yn sero o ran carbon erbyn 2016. Darllenwch ragor (DIUS)

MOD to award own qualifications

The Ministry of Defence has become the first public sector body to be recognised as an awarding body by the Qualifications and Curriculum authority. The MoD has followed McDonalds, airline Flybe and Network Rail in a scheme that allows organisations to issue qualifications to the staff that they train. The first course on offer will be a GCSE-level qualification in 'combat French', with other languages planned to follow. Read more (Guardian)

MOD i ddyfarnu ei gymwysterau ei hun

Y Weinyddiaeth Amddiffyn fydd y corff sector cyhoeddus cyntaf i gael ei gydnabod yn gorff dyfarnu gan yr Awdurdod Cymwysterau a'r Cwricwlwm. Mae'r MoD wedi dilyn McDonalds, cwmni hedfan Flybe a Network Rail mewn cynllun sy'n caniatáu i gyrff roi cymwysterau i'r staff maen nhw'n eu hyfforddi. Y cymhwyster cyntaf a gaiff ei gynnig fydd cymhwyster lefel TGAU mewn 'Ffrangeg brwydr', gyda'r bwriad i ieithoedd eraill ddilyn. Darllenwch ragor (Guardian)

National Employer of the Year announced

Veolia Environement was named Employer of the year at the 2008 National Employer Service (NES) Learners First Awards on 3 April. The awards recognise commitment to workplace learning, and Veolia was singled out for its contributions to staff training, which had involved a scheme that allows every one of its employees the opportunity of achieving at least NVQ Level 2. Other finalist employers at the awards included TUI Travel and the Royal Navy. Read more (LSC)

Cyhoeddi Cyflogwr Cenedlaethol y Flwyddyn

Cafodd Veolia Environement ei enwi'n Gyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Dysgwyr yn Gyntaf y Gwasanaeth Cyflogwyr Cenedlaethol (NES) 2008 ar 3 Ebrill. Mae'r gwobrau'n cydnabod ymrwymiad i ddysgu yn y gweithle, a chafodd Veolia ei ddewis am ei gyfraniadau at hyfforddi staff, a oedd wedi cynnwys cynllun sy'n cynnig y cyfle i bob un o'i weithwyr gyflawni o leiaf un Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 2. Ymhlith y cyflogwyr eraill a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn y gwobrau roedd TUI Travel a'r Llynges Frenhinol. Darllenwch ragor (LSC)

New degree course marks partnership between industry and higher education

Buckinghamshire New University in High Wycombe is offering a retail management foundation degree developed in partnership with bed company Dreams. This marks a new kind of collaboration between industry and higher education; and one which the government is keen to encourage. Read more (BBC News)

Cwrs gradd newydd yn nodi partneriaeth rhwng diwydiant ac addysg uwch

Mae Prifysgol Newydd Swydd Buckingham yn High Wycombe yn cynnig gradd sylfaen mewn rheoli adwerthu a gafodd ei datblygu mewn partneriaeth â'r cwmni gwelyau Dreams. Mae hyn yn nodi math newydd o gydweithrediad rhwng diwydiant ac addysg uwch; ac un y mae'r llywodraeth yn awyddus i'w hannog. Darllenwch ragor (BBC News)

CURRENT CONSULTATIONS

Policy Initiative & Region	Detail	Closing date
Higher Education at Work – High Skills: High Value	This High Level Skills consultation will seek views from employers, students, colleges and	7 July 2008

YMGYNGHORIADAU PRESENNOL

Menter Bolisi a Rhanbarth	Manylion	Dyddiad cau
Addysg Uwch yn y Gwaith – Sgiliau Uchel: Gwerth Uchel	Bydd yr ymgynghoriad hwn ar Sgiliau Lefel Uchel yn gofyn am farn cyflogwyr, myfyrwyr, colegau a	7 Gorffennaf 2008

	universities on how to raise the skills of those already in work and also ensure graduates are equipped with the knowledge and abilities that businesses need to compete globally. Visit the DIUS website.			phrifysgolion ar sut i godi sgiliau'r sawl sydd eisoes yn gweithio a hefyd sicrhau bod gan raddedigion yr wybodaeth a'r galluoedd mae eu hangen ar fusnesau i gystadlu'n fyd-eang. Ewch i wefan DIUS.	
Wales, Europe and the World: a framework fro 14-19 learners	This is a consultation on a non-statutory framework to support the Welsh dimension of the learning experience of 14-19 year old learners. Visit the Welsh Assembly website.	30 June 2008	Cymru, Ewrop a'r Byd: fframwaith ar gyfer dysgwyr 14-19	Mae hwn yn ymgynghoriad ar fframwaith anstatudol i gefnogi dimensiwn Cymreig profiad dysgu dysgwyr 14-19 oed. Ewch i wefan Cynulliad Cymru.	30 Mehefin 2008
Raising Expectations: enabling the system to deliver (Joint DCSF/DIUS consultation)	This is a joint consultation on the transfer of planning and funding responsibilities for 16-19 year olds from the Learning and Skills Council (LSC) to Local Authorities and proposals for reforming the post 19 skills landscape.	9 June 2008	Codi Disgwyliadau: galluogi'r system i gyflawni (Cydymgynghoriad DCSF/DIUS)	Cydymgynghoriad yw hwn ar drosglwyddo'r cyfrifoldebau dros gynllunio a chyllido dysgwyr 16-19 oed o'r Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) i Awdurdodau Lleol a chynigion i ddiwygio'r tirlun sgiliau ôl-19. Ewch i'r wefan.	9 Mehefin 2008

	Visit the website.				
Promoting achievement, valuing success: a strategy for 14-19 qualifications	This consultation seeks views on proposals for achieving the vision set out in the 14-19 education and skills White paper, of a qualifications system in which every young person can prepare themselves through education and training to make a success of their life. Visit the DCSF website.	23 June 2008	Hybu cyflawniad, gwerthfawrogi llwyddiant: strategaeth ar gyfer cymwysterau 14-19	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion ar wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn y Papur Gwyn addysg a sgiliau 14-19, sef system gymwysterau lle gall pob person ifanc baratoi ei hun drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant i lwyddo mewn bywyd. Ewch i wefan DCSF.	23 Mehefin 2008
Informal Adult Learning - Shaping The Way Ahead	We want to ensure that we have the best possible arrangements for securing vibrant and fulfilling informal adult learning for the 21st century. This consultation paper is designed to stimulate debate and shape future Government policy. Visit the DIUS website.	15 May 2008	Dysgu Anffurfiol i Oedolion – Siapio'r Ffordd Ymlaen	Ein dymuniad yw sicrhau bod gennym y trefniadau gorau posibl ar gyfer sicrhau dysgu anffurfiol i oedolion sy'n fywiog ac yn foddhaol ar gyfer yr 21ain ganrif. Nod y papur ymgynghori hwn yw ennyn trafodaeth a siapio polisi'r Llywodraeth yn y dyfodol. Ewch i wefan DIUS.	15 Mai 2008
The Role of Further Education Providers in Promoting	This consultation seeks views on the role of Further	6 May 2008	Rôl Darparwyr Addysg Bellach mewn Hyrwyddo	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar rôl	6 Mai 2008

Community Cohesion, Fostering Shared Values and Preventing Violent Extremism	Education (FE) providers in promoting community cohesion with a particular focus on those aspects that contribute to preventing violent extremism. Our aim is to reach agreement on what FE providers should be doing in this regard and to identify what additional support they will need in playing their part in this agenda. Visit the DCSF website.	

Cydlyniant Cymdeithasol, Meithrin Gwerthoedd Cyffredin ac Atal Eithafiaeth Dreisiol	Darparwyr Addysg Bellach (AB) mewn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol gyda ffocws arbennig ar yr agweddau hynny sy'n cyfrannu at atal eithafiaeth dreisiol. Ein nod yw dod i gytundeb ar yr hyn y dylai darparwyr AB fod yn ei wneud yn hyn o beth a nodi pa gefnogaeth ychwanegol y bydd ei hangen arnynt wrth chwarae eu rhan yn yr agenda hon. Ewch i wefan DCSF.	

For further information or to subscribe to this publication please e-mail:
chloejoyce@lluk.org

I gael gwybodaeth bellach neu i danysgrifio i'r cyhoeddiad hwn anfonwch e-bost at:
chloejoyce@lluk.org

skills FOR BUSINESS

sgiliau AR GYFER BUSNES

**** Sylwch fod y tudalennau â hyperddolenni yn cyfeirio'n uniongyrchol at wefannau Saesneg. Cysylltwch â gwefannau unigol i gael y storïau llawn yn y Gymraeg.***